# Ezetimibe ar gyfer trin hypercolesterolaemia sylfaenol heterosygaidd etifeddol a heb fod yn etifeddol

Chwefror 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir ezetimibe ar ei ben ei hun fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â hypercolesterolemia sylfaenol (heterosygaidd etifeddol a heb fod yn etifeddol) na ellir dechrau therapi statin oherwydd:

- nid yw'n addas ar eu cyfer
- ni allant ei oddef.

Argymhellir ezetimibe fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â hypercolesterolemia sylfaenol (heterosygaidd etifeddol a heb fod yn etifeddol) sydd eisoes wedi dechrau therapi statin os:

- nad yw swm eu serwm neu colestorol lipo-brotîn dwysedd isel (LDL) yn cael ei reoli'n dda a
- y caiff newid o'r statin hwn i statin arall ei ystyried.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Felly, os oes gennych hypercolesterolemia sylfaenol (heterosygaidd etifeddol a heb fod yn etifeddol) a bod eich meddyg yn credu mai ezetimibe yw’r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai ezetimibe fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd ezetimibe oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Mae hypercolesterolemia yn derm meddygol sy'n golygu bod lefelau colesterol unigolyn yn rhy uchel. Mewn hypercolesterolemia sylfaenol heterosygaidd etifeddol, achosir lefelau colesterol uchel gan enyn â nam arno. Tra gyda hypercolesterolemia heb fod yn etifeddol, sy'n fwy cyffredin, mae nifer o ffactorau geneteg yn cyfuno â risgiau iechyd unigolyn, megis deiet gwael, ysmygu a diffyg ymarfer corff, i achosi lefelau colesterol uchel.

Mae ezetimibe yn feddyginiaeth sy'n gweithio drwy flocio'r broses o amsugno colesterol yn y perfedd. Mae hyn yn helpu i ostwng lefelau'r colesterol yn y gwaed.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Heart UK – Yr Elusen Golesterol, 0345 450 5988
- Sefydliad Prydeinig y Galon, 0300 330 3311

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1824-9